**Ymateb ysgrifenedig gan Huw Lewis AC, Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth i Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 'Gyfranogiad yn y Celfyddydau'**

**12 Mawrth 2013**

---

## Cyflwyniad

Mae cynyddu lefelau cyfranogiad a chwalu'r rhwystrau rhag cyfranogi yn ganolog i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y celfyddydau. Mae cynyddu dealltwriaeth pobl o'r celfyddydau a'r gallu i gyrchu atynt hefyd yn egwyddorion sylfaenol i Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC). Rwyf felly yn llwyr groesawu'r adroddiad hwn gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Roeddwn yn falch iawn o sylwi bod yr adroddiad yn cydnabod yr amrediad aruthrol o waith rhagorol sydd eisoes yn cael ei wneud i gynyddu cyfleoedd i unigolion a sefydliadau gyfranogi yn y celfyddydau yng Nghymru.

Yn wir, mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am lefelau cyfranogiad, yn hytrach nag yn dangos cwymp mewn niferoedd, yn dangos cynnydd i lefelau uwch nag erioed. Nid yw'n ddim cyd-ddigwyddiad bod cyfranogiad ymysg oedolion wedi cynyddu o 27% yn 2011 i 40% yn 2012, ac mae'r lefelau cyfranogiad ymysg plant wedi cynyddu o 85% i 92% rhwng 2010 a 2012.

Er hynny, rwy'n sylwi ar bryderon y Pwyllgor o safbwynt y rhwystrau rhag cyfranogi sy'n bodoli o hyd, yn anad dim y materion sy'n ymwneud â mynediad daearyddol, a chost a darpariaeth cludiant cyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae'r problemau mynediad i bobl ag anableddau ac i grwpiau eraill dan anfantais hefyd yn cael eu cyfleu yn gryf.

Rhaid i ni barhau i geisio mynd i'r afael â'r problemau hyn. Yn wir, mae sefydliadau celfyddydau wedi gwneud llawer i roi sylw iddynt dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cynlluniau llwyddiannus dros ben fel 'Noson Allan' CCC wedi mynd â chelf at y bobl, ac yn ddiweddar, gwelsom gwmnïau fel National Theatre Wales yn mynd â'u cynyrchiadau i amrywiaeth eang o sefydliadau cymunedol, ym mhob cwr o Gymru. Mae hyn wedi darparu cyfleoedd i bobl ledled Cymru gael mynediad i weithgaredd artistig o ansawdd da 'ar garreg eu drws'. Yn yr un modd, mae datblygiadau diweddar mewn TGCh a'r cyfryngau digidol yn cynnig posibiliadau newydd cyffrous i ddod â'r celfyddydau gerbron cynulleidfa llawer ehangach.

Yn amlwg, mae gwella hygyrchedd i amrywiol ffurfiau celfyddydol yn bwysig iawn. Fodd bynnag, dylem barhau i annog pobl i fynd ati i gyfranogi. Mae gan y celfyddydau bŵer aruthrol i ysbrydoli, a helpu unigolion i gyrraedd eu potensial. Mae'r celfyddydau yn cyfoethogi bywydau pobl a dylem ymdrechu i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gael profiad uniongyrchol o'r manteision a gynigiant.

Awgryma'r adroddiad y gellid gwneud mwy o hyd yn y maes hwn ond mae'n cydnabod y cyfyngiadau ar yr holl gyllidebau diwylliant ar hyn o bryd. Â yn ei flaen i wneud nifer o argymhellion sy'n awgrymu sut ellid delio â hyn orau. Bydd angen i sefydliadau celfyddydau wynebu'r her drwy weithio'n ddoethach, yn fwy

cydweithredol a gan ddefnyddio mwy o ddychymyg os ydynt am barhau i ddarparu'r lefel greadigrwydd a'r lefel gwasanaeth y mae'r cyhoedd wedi dod i'w disgwyl.

Rwy'n falch bod yr adroddiad yn cydnabod y rôl bwysig hon i lywodraeth leol i gefnogi a chynnal ein celfyddydau a'n treftadaeth. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn gwneud cyfraniad diwylliannol holl bwysig. Yn fy marn i, mae'n hanfodol bod buddsoddiadau yn y celfyddydau gan CCC ac asiantaethau cenedlaethol eraill yn cael eu hategu gan gefnogaeth gan lywodraeth leol. Mae awdurdodau lleol wastad wedi gwneud cyfraniad hanfodol i sicrhau y gall cymunedau ym mhob cwr o Gymru gael mynediad i weithgareddau diwylliannol o bob math, a chyfranogi ynddynt.

Er fy mod yn cydnabod y pwysau ariannol dwys, rwy'n gobeithio'n fawr iawn y bydd awdurdodau lleol yn parhau i gefnogi'r elfen allweddol hon o'u gwaith. Bydd y gwaith a wneir ar hyn o bryd i wthio ymlaen agenda Simpson yn allweddol i hyn. Mae mwy o gydweithredu a rhannu gwasanaethau ac arbenigedd yn hanfodol i sicrhau y gellir cynnal gwasanaethau. Ni ellir ond cyflawni hyn os bydd pob parti yn cyd-dynnu ac yn croesawu ffyrdd newydd o weithio. Bydd fy swyddogion a minnau yn gwneud popeth y gallwn i helpu i wneud i hyn ddigwydd.

Byddaf hefyd yn helpu i hybu'r dull cydweithredol hwn drwy gyfrwng fy nghyfarfodydd rheolaidd gyda'r prif gyrff hyd braich yn y maes diwylliant.

Mae'r Pwyllgor wedi cydnabod y gwahaniaeth rhwng rôl Llywodraeth Cymru a gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru ac adlewyrchir hyn yn yr argymhellion a roddir i'r ddau sefydliad.

Caiff agenda strategol Llywodraeth Cymru ei datgan yn ein Rhaglen Lywodraethu, sydd, o safbwynt y celfyddydau, yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf yn ei hymrwymiad i weithio dros *sicrhau bod profiadau diwylliannol o ansawdd da ar gael i bawb, ni waeth ymhle maent yn byw, na beth yw eu cefndir*.

Yn ddealladwy, mae'r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb penodol yn effaith Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru. Rwy'n gwybod, pan gyhoeddwyd yr argymhellion, y cafwyd cryn bryder y gallai'r gostyngiad yn nifer cleientiaid refeniw craidd CCC greu bylchau mawr yn ein tirlun artistig. Mae'n braf sylwi nad ymddangosodd y pryderon hyn mewn gwirionedd. Erys o hyd rhyw gymaint o anfodlonrwydd ymysg y sefydliadau unigol y gwelsant eu cyllid yn cael ei gwtogi neu'i ddileu'n llwyr, a bu'r rhain yn uchel eu cloch yn eu gwrthwynebiad i newid. Er hynny, erys y ffaith fod y sector celfyddydau fel cyfangorff yn awr, er y cafwyd enillwyr a chollwyr yn anorfod, mewn sefyllfa gryfach i ddarparu gwell mynediad i'r celfyddydau, ac i annog rhagor o gyfranogiad yn y celfyddydau.

Fel y noda'r Adroddiad, mae fy Llythyr Cylch Gwaith blynyddol yn bwysig i sicrhau bod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn cael eu datgan yn glir wrth y Cyngor Celfyddydau. Gallaf sicrhau'r Pwyllgor bod fy Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2013/14 i CCC unwaith eto yn pwysleisio pwysigrwydd hyrwyddo cyfranogiad egnïol yn y celfyddydau.

**Goblygiadau Ariannol**

Fel yr wyf wedi'i grybwyll yn flaenorol, mae natur yr argymhellion hyn yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau'r rhaglenni presennol ac er y bydd gofyn addasu rhyw gymaint ar y rhaglenni hyn er mwyn bodloni gofynion yr argymhellion penodol, nid oes angen newid cyfeiriad yn llwyr.

Am y rheswm hwn, ni ragwelaf y bydd gweithredu'r argymhellion hyn yn arwain at ddim goblygiadau ariannol sylweddol i unrhyw rai o'r rhanddeiliaid allweddol dan sylw. Telir am unrhyw adnoddau ychwanegol sy'n ofynnol o gyllidebau presennol Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

**Mae ymatebion manwl i argymhellion yr Adroddiad i'w gweld isod:**

Rwyf wedi datgan isod fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad:

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cynllun gweithredu ar gyfranogiad, i sefyll ochr yn ochr â'i chynllun gweithredu ar hygyrchedd, gyda'r diben o gynyddu'r lefelau cyfranogiad ledled Cymru. (Tudalen 25)

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

**Rhesymeg:** Mae'r cysylltiad rhwng mynediad a chyfranogiad yn glir oherwydd heb fynediad i weithgaredd celfyddydol o ansawdd da ni fyddai dim i ysbrydoli pobl i gyfranogi a dilyn eu huchelgeisiau eu hunain fel rhan o sector celfyddydau bywiog. Mae'r Pwyllgor wedi dynodi'r cysylltiad hwn, ac fe'i hamlygwyd yn nhebygrwydd rhai o'r argymhellion i'r rheini a ddeilliodd o'r Ymchwiliad blaenorol i Hygyrchedd.

Er bod Llywodraeth Cymru a CCC yn gweithio i gynyddu'r lefelau cyfranogiad, mae'n ymddangos nad yw'r cyhoedd yn gyffredinol yn llwyr gydnabod na deall y gwaith caled hwn. Mae'n bwysig tynnu sylw at y gwaith hwn, a'i fod yn cael ei weld yn gweithio. Rwy'n hapus i gefnogi'r argymhelliad i lunio cynllun gweithredu a fydd yn darparu ffocws i'r gwaith hwn, gydag amcanion clir, disgwyliadau o'r hyn y disgwylir iddo ei gyflawni a monitro, gwerthuso ac adrodd yn rheolaidd ar y cynnydd mewn cynyddu lefelau cyfranogiad.

Rhaid i mi bwysleisio, fodd bynnag, bod holl gyllid celfyddydau Llywodraeth Cymru yn cael ei sianelu drwy gyfrwng CCC, er ei fod yn gweithio'n unol â fframwaith strategol yr ydym ni'n ei osod. Yn unol â'r egwyddor ariannu hyd braich, CCC fydd y corff cyflenwi ar gyfer yr argymhellion hyn. O'r herwydd, byddaf yn gobeithio y bydd CCC yn hawlio perchnogaeth dros y cynllun ac yn ei yrru ymlaen, er bod hynny gyda monitro rheolaidd oddi wrth fy swyddogion, drwy gyfrwng y cyfarfodydd monitro chwarterol rheolaidd.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys mesurau i fonitro lefelau cyfranogiad yn y celfyddydau, a chamau gweithredu i ganfod darpariaeth annheg (e.e. oherwydd rhesymau daearyddol, economaidd neu gymdeithasol). (Tudalen 25)

**Ymateb: Derbyn**

**Rhesymeg:** Mae gan CCC eisoes fesurau wedi'u sefydlu i fonitro lefelau cyfranogiad ac i asesu a oes gan grwpiau penodol gynrychiolaeth deg, a bydd y rhain yn parhau i gael eu defnyddio i fonitro'r cynllun gweithredu. Mae CCC yn cynnal nifer o arolygon blynyddol o bresenoldeb a chyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydau ledled Cymru. Mae'r dangosyddion a ddefnyddir yn cwmpasu 14 o ffurfiau celf, gan gynnwys Arddangosfeydd Celf/Crefft, Gwyliau Celfyddydau, Bale, Celfyddydau Stryd a Charnifal, Dawns gyfoes, Ffilm, Sioeau Cerdd, Opera, Dramâu, Cerddoriaeth glasurol, Jas (Gwerin a Thraddodiadol), Cerddoriaeth Byd, cerddoriaeth Fyw arall a digwyddiadau Llenyddol. Mae'r arolygon hyn hefyd yn dadansoddi presenoldeb a chyfranogiad oedolion a phlant.

**Argymhelliad 3.** Yn ychwanegol at hygyrchedd a chydraddoldeb, dylai llythyr cylch gwaith blynyddol Llywodraeth Cymru gynnwys pwyslais ar gynyddu lefelau cyfranogiad. (Tudalen 25)

**Ymateb: Derbyn**

**Rhesymeg:** Bydd fy Llythyr Cylch Gwaith blynyddol i Gyngor Celfyddydau Cymru yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd ehangu mynediad a chynyddu lefelau cyfranogiad yn y celfyddydau, fel y gwnaeth dros y blynyddoedd diwethaf.

Eleni, rwyf wedi amlygu'n benodol yr angen i barhau ag ymdrechion i gynyddu lefelau cyfranogiad, yn enwedig yng ngoleuni'r anawsterau y mae'r hinsawdd ariannol bresennol yn eu hachosi a'r pwysau dilynol ar y lefelau cyllid sydd ar gael. Anogir sefydliadau i ddefnyddio eu dychymyg, meithrin cysylltiadau a phartneriaethau pryd bynnag y gallant, a gweithio'n agos gyda CCC. Rhoddwyd i CCC hefyd y dasg o ddarparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth i sefydliadau i helpu i sicrhau eu bod yn parhau i addasu ac wynebu'r sialensiau sydd ger eu bron.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys mesurau i sicrhau cydlyniad ar draws adrannau'r llywodraeth a chydweithio ymysg partneriaid gan gynnwys llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. (Tudalen 26)

**Ymateb: Derbyn**

**Rhesymeg:** Derbyniaf yr argymhelliad hwn oherwydd y bydd yn dwyn ynghyd amrediad eang o wybodaeth a gwahanol brofiadau. Fodd bynnag, hoffwn i'r cynllun gweithredu arfaethedig gael ei lunio a'i weithredu yn bennaf gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Rwy'n sylwi bod eich adroddiad yn awgrymu y dylid ceisio mewnbwn gan grwpiau gwirfoddol a'r rheini sy'n gyfrifol am gefnogi grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth deg ond cadw'r ymarferiad yn ddichonadwy, ni fyddwn eisiau ehangu'r mewnbwn i'r gwaith manwl o lunio'r cynllun y tu hwnt i Lywodraeth Cymru a CCC. Nid yw hyn yn golygu na roddir ystyriaeth lawn i safbwyntiau sefydliadau a sectorau eraill. Bydd gan fy nghyfarfodydd Gweinidogol rheolaidd gyda chynrychiolwyr yr holl sefydliadau diwylliannol allweddol, y trydydd sector, ayb, ran allweddol i'w chwarae i gyfrannu syniadau at yr ymarferiad hwn. Fe wnaf hefyd sicrhau, wrth baratoi'r cynllun, y ceir trafodaeth gydag adrannau eraill er

mwyn pwyso a mesur y rôl y gall cyfranogi yn y celfyddydau ei chwarae i roi sylw i agendâu allweddol eraill gan gynnwys addysg, adfywio a Cymunedau yn Gyntaf.

**Argymhelliad 5.** Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru adolygu ei bolisïau ariannu yn rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflenwi rhagoriaeth, ac yn cynyddu'r lefelau cyfranogiad ar yr un pryd. (Tudalen 34)

**Ymateb: Derbyn**

**Rhesymeg:** Mae cynlluniau a pholisïau presennol CCC eisoes yn pwysleisio'r uchelgais ddeuol, sef annog gweithgaredd celfyddydau o'r ansawdd gorau, a sicrhau bod y gweithgaredd hwn ar gael i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Mae hybu cyfranogiad a chynhwysiant yn flaenoriaeth amlwg yn strategaethau ariannu'r Cyngor Celfyddydau.

Bydd CCC yn adolygu ei ddull o gefnogi cyfranogiad ymarferol yn y celfyddydau yn ystod 2013-14.

**Argymhelliad 6.** Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod sefydliadau yn gallu cael gafael ar wybodaeth am ffynonellau nawdd amgen. Dylai hyn fod ar ffurf hyfforddiant, os oes angen. (Tudalen 34)

**Ymateb: Derbyn**

**Rhesymeg:** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn llunio amrediad o gynlluniau i helpu sefydliadau gyda'u gweithgaredd codi arian. Drwy gyfrwng ei Wasanaeth Gwybodaeth, bydd y Cyngor yn darparu gwybodaeth am gyfleoedd a ffynonellau nawdd, ac yn sefydlu ffyrdd o dynnu sylw sefydliadau at y cyfleoedd hynny. Bydd y Cyngor hefyd yn archwilio ymarferoldeb trefnu cymorthfeydd cyllid neu ddigwyddiadau 'marchnad' er mwyn i sefydliadau celfyddydau gwrdd ag ymddiriedolaeth a sefydliadau eraill.

Mae'r Cyngor Celfyddydau yn credu mai'r sefydliadau eu hunain, o bosibl, yw'r cyrff codi arian mwyaf effeithiol, gan mai hwy yw'r eiriolwyr gorau dros eu gwaith eu hunain. Felly, mae'r Cyngor yn chwilio am ffyrdd o feithrin gallu yn y sector drwy ddatblygu cynlluniau hyfforddi newydd.

**Argymhelliad 7.** Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau ei fod yn defnyddio'i berthynas gyda rhwydweithiau i sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd y sefydliadau perthnasol. (Tudalen 35)

**Ymateb: Derbyn**

**Rhesymeg:** Mae'r Cyngor Celfyddydau yn gweithio gydag amrywiol rwydweithiau sy'n cynnwys Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru, VAGW (orielau a chelfyddydau gweledol), Celfyddydau Anabledd Cymru, Age Concern, Cymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru. Bydd y cysylltiadau hyn yn parhau.

**Argymhelliad 8.** Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sefydlu strategaeth i gynyddu'r lefelau cyllid oddi wrth fusnesau. (Tudalen 35)

**Ymateb: Derbyn**

**Rhesymeg:** Mae codi arian oddi wrth y sector busnes yn fater y bydd angen ei drin â gofal. Dengys profiad bod cysylltiadau uniongyrchol oddi wrth y Cyngor Celfyddydau â busnesau yn annhebygol o lwyddo – mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn ochelgar rhag cyrff cyfryngu sector cyhoeddus a thueddant i ffafrio delio â sefydliadau celfyddydau yn uniongyrchol.

Wedi dweud hynny, mae CCC yn cydnabod pwysigrwydd creu hinsawdd lle mae busnesau yn ymwybodol o fanteision buddsoddi yn y celfyddydau. Mae CCC yn gweithio'n agos â sefydliad arbenigol, Arts & Business Cymru, sydd wedi llwyddo i feithrin perthnasau gyda'r rhan fwyaf o'r cwmnïau arweiniol yng Nghymru. Mae'n bwysig nad yw strategaeth CCC ar gyfer y dyfodol yn ansefydlogi'r berthynas hon.

**Huw Lewis AM**
Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth.